# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ0207(EH) a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, 1 Mawrth, 2005.

**At Helen Mary Jones:**

Yn ystod y sesiwn cwestiynau ar 1 Mawrth, dywedodd y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, mewn cwestiwn atodol at OAQ0207, y byddai Rhodri Morgan yn ysgrifennu atoch ynglŷn â chyhoeddi Mynd i'r Afael â Cham-drin yn y Cartref: Strategaeth Cymru Gyfan ac i gadarnhau bod digon o ddeialog wedi digwydd gyda Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol ynglŷn â chynnwys eu strategaethau. Yr wyf fi'n ateb gan fod hyn yn rhan o fy mhortffolio i.

Byddaf yn lansio'r Strategaeth Genedlaethol ar Gam-drin yn y Cartref ar 30 Mawrth. Bydd honno'n adeiladu ar y gwaith da sydd eisoes yn cael ei wneud gan asiantaethau, a bydd yn datblygu dulliau aml-asiantaeth o weithio gyda dioddefwyr ac ar ffyrdd i atal digwyddiadau yn y dyfodol. Bydd Gweithgor Cymru Gyfan ar Gam-drin yn y Cartref yn monitro darparu hynny yn fanwl.

Bu ymgynghori cyhoeddus ar y strategaeth a ddaeth i ben ym mis Medi 2004, a thrafodwyd y canlyniad yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ar 8 Rhagfyr 2004. Cymerwyd i ystyriaeth safbwyntiau pawb a oedd â diddordeb, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol.

Mae swyddogion y Cynulliad wedi dweud wrth yr holl Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol ei bod yn rhaid cynnwys cynlluniau ar gyfer mynd i'r afael â cham-drin yn y cartref yn eu Cynlluniau Diogelwch Cymunedol o fis Ebrill 2005 ymlaen. Mae hyn wedi ei wneud drwy gyfrwng seminarau a gynhaliwyd yn y Gogledd a'r De yn 2004, a thrwy gynhadledd ar gyfer yr holl Gydlynwyr Cam-drin yn y Cartref.